

Judith Paget, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Ann Lloyd, Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Chris Humphrey, Cyfarwyddwr Strategol Pobl, Cyngor Sir Casnewydd
Sally Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Cyngor Sir Casnewydd
Sheila Davies, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Casnewydd
Caroline Ryan-Phillips, Rheolwr Tîm Troseddwr Ifanc Casnewydd
Sarah Morgan, Prif Swyddog Addysg
Pam Kelly, Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent
Ian Barrow, Dirprwy Gyfarwyddwr NPS Cymru
Suki Binning, Prif Weithredwr Rhanbarthol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Caint, Surrey a Sussex (KSS)
Dawn Blower, Prif Swyddog, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date: 17 Ebrill 2020

Annwyl Cydweithiwr

Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (ACDAP): Casnewydd, Rhagfyr 2019

Rhwng 2 a 6 Rhagfyr 2019, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstablfaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub eu Mawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP) ac Estyn arolygiad ar y cyd o'r ymateb amlasiantaeth i gamdriniaeth ac esgeulustod yng Nghasnewydd. Roedd yr arolygiad hwn yn cynnwys gwerthusiad o'r modd yr oedd gwasanaethau lleol yn ymateb i gamfanteisio ar blant.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu ein canfyddiadau am effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth a gwaith asiantaethau unigol yng Nghasnewydd. Dylech anfon neges i gadarnhau eich bod wedi cael y llythyr hwn i AGC.AwdurdodLleol@llyw.cymru.

Roedd y ACDAP hwn yn cynnwys gwerthusiad o'r 'drws ffrynt' drwy ystyried pa mor effeithiol roedd partneriaid yn ymateb i atgyfeiriadau am blant y gallai fod angen help, gofal a/neu gymorth arnynt neu blant a oedd mewn perygl o niwed sylweddol. Yng Nghasnewydd, caiff pob ymholiad neu bryder am blant eu prosesu drwy hwb diogelu yr awdurdod lleol, sy'n cynnwys personél yr heddlu a'r awdurdod lleol. Yn ogystal, cynhaliodd yr arolygwyr ddadansoddiad manylach o effeithiolrwydd gwasanaethau ar gyfer grŵp o blant sydd wedi wynebu camfanteisio neu sydd mewn perygl o wneud hynny (at wraidd y mater). Yn olaf, gwerthusodd yr arolygwyr effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth amlasiantaeth gwaith diogelu.

Ar gyfer y gwerthusiad at wraidd y mater, gwnaethom adolygu amgylchiadau saith o blant o rywedd ac ethnigrwydd cymysg, rhwng 13 ac 17 oed, yr oedd tri ohonynt yn blant â phrofiad o ofal. Roedd y fethodoleg at wraidd y mater yn cynnwys dau grŵp ffocws yn cynnwys yr amrywiaeth o weithwyr proffesiynol amlasiantaeth sy'n gweithio gyda'r plant hyn, gwerthusiad o wybodaeth a ddelir yng nghronfeydd data asiantaethau, a chyfweliadau â'r plant, y rhieni/gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol. Yn bennaf, gwerthusodd yr arolygwyr waith â phlant a'u teuluoedd yn seiliedig ar y chwe i 12 mis diwethaf o waith gyda'r asiantaeth. Rhoddwyd arolwg i staff yr awdurdod lleol a staff y gwasanaeth troseddwr ifanc.

Amlinellir ein prif ganfyddiadau mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth fel a ganlyn. Yn ystod ein harolygiad gwnaethom gwrdd â gweithwyr proffesiynol ymrwymedig a llawn cymhelliant a oedd yn dangos dealltwriaeth dda o natur y gwaith mewn perthynas â phlant a theuluoedd sydd mewn perygl neu sy'n wynebu camfanteisio. Gwnaethom gydnabod natur gymhleth y gwaith hwn.

Nododd yr arolygwyr fod yr heddlu a'r awdurdod lleol wedi cydweithio i gydleoli personél yn yr hwb diogelu. Mae hyn yn galluogi gwybodaeth i gael ei rhannu a'i gwella a gwneud penderfyniadau yn gynt. Gellid gwella'r trefniant hwn gyda rhyngwyneb gwell rhwng yr hwb a chynrychiolwyr iechyd ac addysg; er enghraifft, petai'r asiantaethau hyn yn cydleoli ac yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn yr heddlu ac ym maes gofal cymdeithasol, gellid gwella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd. Ni welsom dystiolaeth o adolygiad o bartneriaeth yr hwb na fframwaith perfformiad ar waith er mwyn helpu i ddeall sut mae'r hwb yn darparu gwasanaeth diogelu. Nid oes unrhyw raglen archwilio glir a fyddai'n rhoi sicrwydd i arweinwyr bod eu disgwyliadau yn cael eu diwallu. Felly, ni all y bartneriaeth fod yn gwbl hyderus ei bod yn gwella diogelwch a chanlyniadau i blant a phobl ifanc.

Gwelsom fod y bwrdd diogelu rhanbarthol yn gydlynol wrth drefnu busnes a'i fod yn cael ei gefnogi'n dda gan y grŵp amlddisgyblaethol. Mae'r byrddau oedolion a phlant wedi uno yn ddiweddar, a bydd hyn yn fuddiol wrth rannu gwybodaeth drawsbynciol a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Mae gan arweinydd diogelu awdurdod lleol Casnewydd broffil uchel ac mae'n ymgysylltu ag elfennau o waith diogelu rhanbarthol ac yn arwain arnynt. Mae cadeirydd y bwrdd wedi cydnabod bod angen datblygu dull o sicrhau ansawdd gwaith diogelu er mwyn bod yn hyderus bod partneriaid yn gwybod beth sy'n digwydd wrth gyflawni elfennau gwahanol o ymarfer diogelu gweithredol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r bartneriaeth gael sicrwydd am ddiogelwch a chanlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae is-grŵp rheoli hyfforddiant amlasiantaeth yn darparu rhaglen sy'n cael ymateb da gan bartneriaid.

O ran plismona, gwelsom arwyddion clir o welliant ers yr Arolygiad Amddiffyn Plant Cenedlaethol Gwent diweddaraf; cawsom sicrwydd penodol o weld bod Heddlu Gwent yn cydgysylltu proses o fabwysiadu ymarfer sy'n cael ei lywio gan drawma a gwaith Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE).

Mae cynnig atal cynhwysfawr yng Nghasnewydd, ar lefel cyfiawnder ieuenticid a gwasanaethau plant. Gwelsom gefnogaeth gref yn y maes hwn gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent sy'n cael ei gynrychioli ar y bwrdd diogelu rhanbarthol. Mae asiantaethau partner (darparwyr statudol a darparwyr trydydd sector megis St.Giles, Barnardo's a Casnewydd Fyw) yn gweithio yn unol ag ethos a rennir o ddiogelu plant a phobl ifanc ar lefelau gwahanol o fod yn agored i niwed. Mae hyn yn amlwg am fod arweinwyr yn y sefydliadau hyn wedi egluro gweledigaeth glir a rennir.

Mae partneriaid yn cydnabod agweddau ehangach ar gamdriniaeth a chamfanteisio ac maent yn cydweithio i amddiffyn plant drwy weithgarwch er mwyn tarfu ar gangiau troseddau cyfundrefnol. Cyn gorfodi, mae'r heddlu yn rhannu gwybodaeth fel y gall ysgolion a gwasanaethau plant gynllunio ar gyfer unrhyw darfu ar ddiwrnodau plant a chynnig cymorth lle y bo angen. Mae swyddog diogelu enwebedig yn rhan o bob tîm ac yn gweithredu gwarantiau chwilio. Cânt eu briffio ynghylch rhoi gwybod am unrhyw bryderon am blant ar unwaith. Mae hyn yn sicrhau bod cynlluniau diogelu prydlon yn cael eu datblygu er mwyn cefnogi'r plant yr effeithir arnynt. Mae Ymgyrch Encompass yn enghraifft arall o bartneriaeth effeithiol; mae hyn yn galluogi ysgolion i gael gwybod am ddigwyddiadau cam-drin domestig ac mae'n galluogi cynrychiolydd ysgol i ymgysylltu â'r teulu a chefnogi'r plentyn.

Mae partneriaid wedi dechrau panel Monitro ac Adolygu Gwent er mwyn gwella llesiant plant a gedwir yn nalfa'r heddlu. Mae'r panel wedi llwyddo i gytuno ar brotocol er mwyn gwneud yn siŵr y gall oedolion priodol fynd i'r ddalfa i gefnogi llesiant plant. Mae mwy o oruchwyliaeth hefyd wedi arwain at leihau nifer y plant a gedwir yn y ddalfa dros nos.

Ar y cyfan mae adrannau'r awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol pan fyddant mewn cysylltiad â phobl sy'n agored i niwed. Er enghraifft, gwelsom fod swyddogion tai yn cymryd rhan mewn fforymau diogelu megis Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC). Mae hyfforddiant diogelu gorfodol ar gyfer staff yr awdurdod lleol.

Mae asiantaethau wedi cydweithio i ddatblygu adnodd Asesu Camfanteisio ar Blant sydd yn adnodd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)/Camfanteisio'n Droseddol ar Blant (CCE) cyfunol. Dylai'r adnodd hwn hwyluso cyfle rhagorol er mwyn i weithwyr proffesiynol gydweithio, rhannu gwybodaeth, gwerthuso risg drwy'r grŵp amlasiantaeth a datblygu cynlluniau i liniaru risg. Mae hyn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd a bydd angen ei ddilysu.

Mae uwch-arweinwyr addysg, ar bob lefel, yn cyfathrebu'n effeithiol. Mae gweledigaeth glir a chydweithredol ar gyfer yr ysgolion ym mhob rhan o'r awdurdod yn sicrhau amgylchedd dysgu diogel a chyson ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed yn ogystal ag amrywiaeth eang o brofiadau dysgu o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae dull gweithredu amlasiantaeth Casnewydd o gefnogi a diogelu disgyblion sy'n agored i niwed sy'n cael eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn adweithiol ac nid yw'n ddigon strategol. Mae'r cynlluniau mwyaf diweddar ym maes addysg yn dangos darpariaeth well ac ymrwymiad cryfach i ddarparu cymorth i'r disgyblion hyn yn Gymraeg, ac mae'r bwriad yn gam cadarnhaol ymlaen. Fodd bynnag, mae diffyg cydraddoldeb rhwng diogelu disgyblion sy'n agored i niwed mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg. O ganlyniad, nid oes cymorth bob amser ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion sy'n agored i niwed sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae Ymgyrch Quartz a'r Cyfarfod Camfanteisio ar Blant Amlasiantaeth (MACE) yn rhoi cyfle i oruchwylio a chydlynu gwaith gyda phlant sy'n agored i gamfanteisio posibl. Dywedodd staff gweithredol yr awdurdod lleol wrthym y gallai'r cyfarfodydd MACE ddyblygu proses. Dylid adolygu'r cylch gorchwyl ar gyfer y fforwm MACE. Mae hyn yn amserol am fod cynlluniau ar waith i ystyried pobl ifanc sydd mewn perygl o CSE a CCE.

Mae'r Tîm Unigolion Coll (MISP) yn cael ei adolygu. Gwelsom nad oes unrhyw ddealltwriaeth glir o'r dyfodol a sut y bydd swyddogaethau yn cael eu hymgorffori mewn model yn y dyfodol. Mae'r sesiwn dadfrifio neu gyfweliad dychwelyd yn faes hanfodol o ymarfer diogelu ac mae angen mynegi unrhyw newidiadau i bob partner a'u rhoi ar waith yn effeithiol mewn trefniadau dros dro a threfniadau tymor hwy.

Cawsom adroddiadau amrywiol o ran cysondeb presenoldeb mewn grwpiau craidd amddiffyn plant ar gyfer rhai grwpiau proffesiynol. Yn absenoldeb fframwaith archwilio clir, ni all yr asiantaethau partneriaeth fod yn sicr bod pob asiantaeth yn cyfrannu'n effeithiol at waith dadansoddi risg a datblygu cynlluniau diogelwch gofal a chymorth.

Cryfderau Allweddol

Mae'r heddlu yn dangos ymrwymiad clir i amddiffyn plant, yn enwedig mynd i'r afael â chamfanteisio ar blant yng Nghasnewydd. Amlygir hyn fel blaenoriaeth yr heddlu drwy gynllun heddlu a throsteddu Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu (PCC) a thrwy lunio proffil problem CCE er mwyn deall y mater yn well. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi ariannu prosiect peilot fel bod gweithiwr cymdeithasol yn bresennol yn yr ystafell reoli er mwyn rhoi gwybodaeth am wasanaethau cymdeithasol. Gall yr uwch-ymarferydd gwaith cymdeithasol hefyd roi cyngor ac arweiniad i staff sy'n delio â phlant sy'n agored i niwed, er ei bod hi'n rhy fuan i asesu effaith y swydd hon.

Mae'r heddlu wedi buddsoddi'n sylweddol i wneud yn siŵr bod y tîm sy'n gyfrifol am ymchwilio i gam-drin plant wedi'i staffio'n llawn. Mae swyddogion, a'u goruchwylwyr, wedi cael hyfforddiant ymchwilio i gam-drin plant arbenigol. Cânt eu cefnogi wrth ymchwilio i gamfanteisio gan dîm Ymgyrch Quartz. Mae'r tîm hwn hefyd wedi'i staffio'n llawn gyda ditectif ringyll yn gyfrifol am reoli gweithgareddau'r tîm. Mae hyn yn golygu bod y plant hynny y mae perygl y camfanteisir arnynt yn gweld swyddogion o'r un tîm sy'n gyfarwydd iawn â'u hamgylchiadau. Mae aelodau o'r tîm yn mynychu trafodaethau strategaeth camfanteisio, ac mae'r rhai sydd â gwybodaeth arbenigol yn ymchwilio i droseddau camfanteisio.

Drwy'r rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd mae'r heddlu wedi hyfforddi 1,000 o swyddogion rheng flaen, y ddalfa a'r ystafell reoli a staff ym maes ymwybyddiaeth o ACE a thrawma. Mae hyn wedi cael ei ategu yng Nghasnewydd gyda gweithdai ychwanegol ar gyfer 130 o swyddogion a staff er mwyn gwella'r broses o gyflwyno Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd (PPN) gydag aide memoire cysylltiedig a thempled canllawiau. Mae hyn wedi gweld gwelliant o ran ansawdd y wybodaeth a rennir â gwasanaethau plant. Mae'r heddlu wedi gwella'r hyfforddiant a ddarperir i staff y ddalfa, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, fel y caiff materion diogelu ehangach eu nodi ac y rhoddir gwybod amdanynt drwy gyflwyno PPN.

Gwelsom fod rheolwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) yn ymrwymo i wella dealltwriaeth ymarferwyr o'u cyfrifoldeb proffesiynol unigol tuag at ddiogelu ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Mae gan bob maes yn ABUHB gynrychiolaeth unigol ar y bwrdd diogelu mewnol, sy'n rhoi lefel o graffu mewnol. Mae tîm Diogelu Corfforaethol ABUHB yn cyflwyno adroddiadau perthnasol i'r bwrdd hwn. Cyflwynir papur diogelu i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn flynyddol, ac mae diogelu yn un o agendâu'r pwyllgor hwn. Mae gan Bwyllgor Diogelu ABUHB gadeirydd allanol sydd â phrofiad helaeth ym maes diogelu. Mae hyn yn helpu o ran goruchwyllo a chraffu annibynnol. Mae gan fewnwyd ABUHB dudalen diogelu gorfforaethol sy'n rhoi cyngor ac arweiniad defnyddiol i'r staff. Mae manylion cyswllt mewnol ac allanol hefyd ar gael ar gyfer ymarferwyr.

Dywedwyd wrthym am gynnydd o ran ymgynghori â phobl ifanc; enillodd ABUHB wobwr genedlaethol cynnwys ac ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc gan bobl ifanc. Mae'r ward plant yn Ysbyty newydd Athrofaol y Grange wedi cael ei datblygu gan ystyried barn pobl ifanc.

Nododd y staff y gwnaethom gyfnewid â nhw eu bod yn gallu mynd at y tîm diogelu i gael cyngor ac arweiniad. Mae rhoi hyrwyddwyr diogelu lleol ar waith mewn ardaloedd gwahanol wedi ymestyn y rhwydwaith cymorth ymhellach. Mae'r tîm diogelu corfforaethol yn datblygu ac yn darparu pob lefel o hyfforddiant diogelu, gan gynnwys sesiynau wyneb yn wyneb ym meysydd arbenigol, sy'n denu niferoedd da. Mae lefelau cydymffurfiaeth yn yr hyfforddiant gorfodol hwn wedi cynyddu'n sylweddol.

Mae'r grŵp uwch-reolwyr gwasanaethau plant yn grŵp a sefydlwyd yn gymharol ddiweddar, ond roedd yn gydlynol ac yn weladwy ym mhob rhan o'r gweithlu. Gwelsom fod uwch-reolwyr gwasanaethau plant yn cyfathrebu'n effeithiol â'u staff. Mae diwylliant cefnogol ac agored nad yw'n rhoi bai ar neb, a osodir gan bennaeth y gwasanaeth. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn teimlo'n 'ddiogel' wrth rannu penderfyniadau risg. Mae Casnewydd yn sefydliad dysgu; roedd meddwl yn arloesol yn cael ei nodi ac roedd rheolwyr yn rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Enghraifft o hyn yw sut mae gwasanaethau plant Casnewydd yn newid y ffordd mae cartrefi plant yn cefnogi pobl ifanc. Mae strategaeth (a gefnogir gan yr aelodau) i wella darpariaeth y cartrefi plant preswyl mewnol. Mae hyn wedi cynnwys dull o adnewyddu amgylcheddau'r cartrefi. Gwelsom rai enghreifftiau da o'r ffordd mae'r staff preswyl yn gweithio'n effeithiol i ymgysylltu â phobl ifanc a rhyngweithio â nhw.

Roedd cydweithio effeithiol rhwng arweinwyr ysgolion drwy grwpiau sefydledig megis y grŵp 'symudiadau wedi'u rheoli', ac yn fwy diweddar, cynnwys arweinwyr amlasiantaeth y grŵp 'Partneriaid Gwahardd a Chamfanteisio Ysgolion' a'r grŵp 'Troseddau Cyfundrefnol Difrifol'. Mae'r mentrau hyn yn ategu ac yn cefnogi gweledigaeth yr awdurdod yn dda iawn wrth amddiffyn plant sydd mewn perygl o gamfanteisio.

Mae swyddogion yn Nhîm Ymgysylltu a Chynhwysiant yr awdurdod yn gweithio'n agos iawn gydag arweinwyr ysgolion i ddarparu cymorth gwerth chweil i staff mewn ysgolion. Mae holl staff ysgolion yn cael hyfforddiant priodol o ansawdd uchel mewn dulliau o gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion. Yn dilyn adolygiadau sicrhau ansawdd cadarn, mae'r hyfforddiant wedi cynnwys ffocws gwerthfawr ar ddeall gofynion gweithredu trothwy wrth gwblhau ffurflenni atgyfeirio amlasiantaeth, yn ogystal â hyfforddiant ar atal drwy'r Rhaglen Ymwybyddiaeth o Ymlyniad. Mae'r

hyfforddiant hwn yn cynnwys cymorth priodol i'r staff fel eu bod yn gallu ymateb i faterion fel effaith a thrawma profedigaeth, rheoli dichter a hunanbarch disgyblion. Mae arweinwyr yr awdurdod lleol yn sicrhau bod hyfforddiant yn rhoi'r hyder a'r sgiliau sy'n ofynnol i staff ysgolion er mwyn rhoi gweledigaeth yr awdurdod ar waith yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae staff ysgolion ar bob lefel yn dangos ymrwymiad ardderchog i'r weledigaeth ac maent yn ei rhoi ar waith yn frwdfrydig.

Mae rheolwyr tîm cynhwysiant addysg yr awdurdod lleol yn darparu lefel uchel o her a chymorth i arweinwyr ysgol. Maent yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd ac yn mynychu cyfarfodydd grŵp strategol allweddol. O ran sefydlu systemau cadarn ar gyfer lleihau'r risg o gamfanteisio, maent yn gwybod beth yw cryfderau a meysydd datblygu yr ysgolion yn dda. Maent yn gwerthuso effaith ymyrryd yn effeithiol ac yn gweithredu ar y canlyniadau fel bod y cynlluniau datblygu personol i blant sydd mewn perygl o gamfanteisio yn cael eu rhoi ar waith a'u hadolygu yn rheolaidd.

Cwblhawyd adolygiad gan gymheiriaid ieuenctid y llynedd a nododd nifer o feysydd i'w datblygu ar gyfer gwasanaethau troseddwr ifanc. Mae llawer o'r rhain wedi cael eu rhoi ar waith, yn bennaf ail-lunio'r bwrdd rheoli, y nodwyd ei fod yn aneffeithiol ac yn anhylaw yn y ddau arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r adolygiad gan gymheiriaid.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJS) fynediad i wybodaeth dda am y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu ac mae'r rheolwr gwybodaeth yn rhoi gwybodaeth i'r bwrdd a rheolwyr timau er mwyn helpu i gwmpasu darpariaeth y gwasanaeth. Mae'r wybodaeth hon yn nodi bod bron i ddwy ran o dair o lwyth achosion agored YJS yn cynnwys naill ai camfanteisio troseddol ar blant neu gamfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffactor yn y troseddau. Yn ogystal, mae cyfraddau aildroseddu o ddatrysiadau cymunedol yn hysbys, a chyfraddau newydd-ddyfodiaid cyntaf ar gyfer achosion atal. Dylai hyn alluogi'r gwaith o werthuso ac adolygu'r cynlluniau hyn.

Mae gwaith wedi cael ei wneud i leihau nifer y plant sy'n cael dedfryd o garchar ac mae hyn wedi bod yn effeithiol, heb unrhyw blant o Gasnewydd yn y ddalfa ar hyn o bryd.

Mae Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol (HCP) ar gael yn barhaol yn nalfeydd yr heddlu fel y gall plant a gedwir weld yr HCP. Mae staff y ddalfa a HCPau wedi cael hyfforddiant ar faterion CCE a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod (ACE) a gallant wneud asesiad i weld a yw'n debygol y camfanteisir yn droseddol ar y plentyn. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi ar y PPN pan gaiff ei gyflwyno i'r awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth hanfodol ar gael yn y tarddiad sy'n bwysig o ran hwyluso gwneud penderfyniadau yn ddi-oed. Ym mis Tachwedd, cafodd 42 o blant eu cadw a chyflwynwyd PPN mewn perthynas â 41 ohonynt.

Mae cynnig da o ymyraethau yn dilyn datrysiad cymunedol, ac mae polisi clir ar waith gyda'r heddlu ar nifer y datrysiadau cymunedol y gall plentyn eu cael. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad byr rhwng swyddog yr heddlu YJS a rheolwr tîm YJS. Mae Staff YOS wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae nifer o staff hefyd wedi cael hyfforddiant ar fod yn 'ymatebwr cyntaf' i fasnachu pobl.

Ar adeg ein harolygiad, daeth swyddogaethau rheoli troseddwr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a'r Cwmni Adsefydlu Cenedlaethol (CRC) ynghyd mewn model unedig newydd o dan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Aeth y gwaith sylweddol hwn rhagddo yn esmwyth.

Mae'n ofynnol i'r holl staff gwblhau hyfforddiant diogelu asiantaeth unigol yr NPS, ac ategir hyn drwy gwblhau hyfforddiant amlasiantaeth Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent. Mae swyddog prawf yn rhan o grŵp is-reoli hyfforddiant y bwrdd ac mae'n helpu i gyflwyno'r rhaglen hyfforddi. Roedd adborth yn dilyn y digwyddiad llinellau cyffuriau diweddar, a hwyluswyd gan yr heddlu, yn arbennig o gadarnhaol.

Gwnaethom nodi proses gyson a oedd yn cael ei deall yn dda er mwyn i weithwyr proffesiynol atgyfeirio pryderon am blant i'r hwb diogelu drwy gwblhau'r Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth (MARF) neu, yn achos yr heddlu, ffurflenni Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd (PPN). Mae'r MARF yn

arwain yr atgyfeiriwr yn glir drwy'r broses o ddarparu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn helpu'r broses o wneud penderfyniad ac yn sicrhau cysondeb yn y broses atgyfeirio.

Roedd atgyfeiriadau newydd yn cael eu prosesu mewn modd amserol ac roedd "data craidd" perthnasol, gan gynnwys a oedd asesiadau wedi cael eu cynnig yn Gymraeg, yn cael eu nodi ar gofnodion y plant. Yn yr hwb diogelu gwelsom dystiolaeth bod trafodaethau strategaeth yn cael eu cynnal a bod ymholiadau o dan Adran 47 yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon. Mae cyfarfodydd hwb ddwywaith yr wythnos sy'n sgrinio atgyfeiriadau perthnasol gyda gwybodaeth a ddarperir gan asiantaethau partner. Yna bydd asiantaethau sy'n bresennol yn cyfrannu at benderfyniadau dyrannu. Yn ystod yr arolygiad cawsom gyfle i arsylwi ar gyfarfod a gwelsom ei fod yn broses effeithiol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, mae cyfle i wella'r broses o wneud penderfyniadau drwy fewnbwn amlasiantaeth gwell.

Pan wneir penderfyniad i beidio â gweithredu ymhellach mewn perthynas â PPNau a dderbynnir yn yr hwb, mae'r Tîm Ymyrryd yn Gynnar yn adolygu'r atgyfeiriadau hyn. Cysylltir â'r teulu yr un diwrnod gyda chynnig o alwad "Yr Hyn sy'n Bwysig" mewn dau ddiwrnod ac yna ymweliad pellach os yw'n briodol. Gellir uwchgyfeirio unrhyw bryderon a nodir gan y tîm hwn yn ôl i'r hwb diogelu drwy System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Mae uchelgais i gynnwys yr atgyfeiriadau MARF yn y broses hon. Dim ond mewn 7% o achosion y gwnaethpwyd ailatgyfeiriad ar gyfer y plant a'r teuluoedd hyn a dim ond 6% o achosion a gafodd eu huwchgyfeirio yn ôl i'r hwb. Mae hyn yn dangos bod y system hon yn gweithio'n effeithiol er mwyn nodi ac atal anghenion rhag gwaethygu.

Mae staff yr heddlu yn y Tîm Ymyrryd yn Gynnar a'r hwb yn sicrhau ansawdd PPNau a dderbynnir. Maent yn rhoi adborth i swyddogion a'u goruchwylwyr. Nodir themâu a rhoddir gwybod i'r Bwrdd Camau Cynnar Gyda'n Gilydd amdanynt fel y gellir adolygu a diweddarau hyfforddiant. Mae'r Tîm Ymyrryd yn Gynnar yn cynnal Panel Llesiant Gofod wythnosol. Mae Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn hwyluso cyfarfod amlasiantaeth sy'n adolygu pob atgyfeiriad sy'n cael ei atgyfeirio/hunanatgyfeirio ar gyfer Cyngor a Chymorth. Mae hyn yn sicrhau dull gweithredu partneriaeth o ran cytuno ar amrywiaeth o ymyraethau ataliol er mwyn cefnogi teuluoedd. Fodd bynnag, gall fod oedi o 3-4 wythnos ar ôl dyrannu cyn i'r gwaith ddechrau.

Mae gwasanaethau ataliol drwy gyllid Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu gwaith allgymorth/cadw'n ddiogel "y tu allan i oriau" gyda phobl ifanc y mae perygl y camfanteisir arnynt; yn ogystal â rhannu gwybodaeth berthnasol a chyfrannu at wneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd strategaeth gyda'r heddlu a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gweithwyr Ymddiriedolaeth St Giles, Divert a Barnardo's wedi cael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau ataliol dargyfeiriol i blant y mae perygl y camfanteisir yn droseddol arnynt. Mae prosiectau sy'n canolbwyntio ar droseddau cyfundrefnol difrifol ac ymyrryd yn gynnar yn sefydledig ac yn darparu cymorth ymarferol a chymorth gan gymheiriaid i blant y nodwyd eu bod mewn perygl. Gwelsom fod gweithwyr prosiect yn darparu profiadau er mwyn gwella'r gwaith a ddarparu cyfraniad gwerthfawr i gyfarfodydd strategaeth CCE.

Mae'r Grŵp Partneriaethau Gwahardd a Chamfanteisio Ysgolion yn banel amlasiantaeth. Mae'r grŵp yn cwrdd bob hanner tymor er mwyn archwilio'r cysylltiad rhwng gwaharddiadau ysgolion ac ymgysylltiad pobl ifanc â throeddolrwydd. Mae'r grŵp hwn wedi cael ei greu fel is-grŵp bwrdd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yng Nghasnewydd, gyda'r nod o rannu gwybodaeth ac ymchwil rhwng partneriaid er mwyn archwilio cysylltiadau a nodi ymyraethau effeithiol. Gwelsom fod penderfyniadau ar y cyd o ran lleoli disgyblion, atgyfeirio a chymorth ymyrryd yn cael eu llywio gan ymchwil effeithiol a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu cyd-destunol. Roedd yr holl bartneriaid yn dangos dealltwriaeth gynhwysfawr o'r angen i ymateb i brofiadau pobl ifanc o niwed sylweddol y tu hwnt i'w hamgylchedd teuluol neu gartref.

Mae gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) brosesau ar waith i ymateb i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth mewn modd amserol. Gwelsom dystiolaeth bod staff

CAMHS yn gwneud galwadau ffôn dilynol er mwyn cysylltu â theuluoedd pan oedd pobl ifanc wedi colli apwyntiadau. Mae'r dull hwn o ddyfalbarhau yn arbennig o bwysig wrth weithio gyda phobl ifanc a allai fod yn amharod i ymgysylltu.

Yn ddiweddar mae Heddlu Gwent wedi cyflwyno nodweddion CCE yn y tîm Ymgyrch Quartz sefydledig. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol a'r bwriad yw symleiddio prosesau fel bod y timau yn dod yn hollgymwys er mwyn delio â chamfanteisio ar blant yn gyfannol. Er bod y tîm CCE yn ymsefydlu ac yn dadansoddi gwybodaeth sy'n bodoli eisoes am ba blant y gellid camfanteisio arnynt, mae carfan fawr o blant yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, dylai hyn ddod yn haws i'w reoli wrth i'r adnodd asesu camfanteisio ar blant a ddatblygwyd yn ddiweddar gael ei gymhwyso at bob achos ac wrth i'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf gael eu diogelu drwy ddatblygu cynlluniau diogelu ar y cyd.

Mae'r awdurdod wedi datblygu rhwydwaith llwyddiannus o gymorth a gynigir gan hyrwyddwyr dysgu llawn cymhellant sy'n cefnogi disgyblion unigol yn yr ysgol. Wedi'u cyflogi a'u rheoli gan yr ysgolion a PRU, maent yn ymgysylltu'n frwdfrydig â disgyblion er mwyn darparu profiadau cadarnhaol o'r byd dysgu a gwaith. Maent yn gweithio gyda dysgwyr unigol i ddarparu mentora cyson er mwyn cefnogi gwaith dysgu. Mae'r cymorth rheolaidd hwn yn helpu disgyblion i negodi gydag athrawon, rheolwyr lleoliadau gwaith a staff cartrefi gofal er mwyn rheoli eu gwaith cwrs a'u gweithgareddau cymdeithasol yn briodol. Mae'r hyrwyddwyr dysgu yn chwarae rôl gyfeillio werthfawr i'w cefnogi i wneud penderfyniadau bywyd cadarnhaol a llwyddo yn eu haddysg. Maent yn gweithio'n agos gyda Chydgyssylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE) yr awdurdod er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bwysig am lesiant y disgyblion yn cael ei throsglwyddo rhwng gwasanaethau plant ac addysg mewn modd amserol.

Mae cynrychiolwyr ysgolion yn gyfranwyr allweddol mewn cyfarfodydd craidd diogelu ac adolygiadau plant sy'n derbyn gofal a, lle y bo angen, mae cynrychiolwyr ysgolion yn gwneud pob ymdrech i fynychu cyfarfodydd a gynhelir y tu allan i'r tymor. Os na all ysgolion fod yn bresennol, mae'r awdurdod yn gwneud trefniadau priodol er mwyn sicrhau bod uwch-swyddogion o wasanaethau addysg canolog yn bresennol. Mae hyn yn sicrhau, yn y cyfarfodydd hyn, fod anghenion addysg y disgyblion yn hanfodol wrth ystyried cymorth ac ymyrraeth.

Mae'r 'Tîm o Amgylch y Bont', sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth, yn cynnig cymorth priodol i ddisgyblion yn y PRU er mwyn lleihau nifer y disgyblion sy'n absennol yn gyson. Mae'r grŵp hwn o weithwyr addysgol a ddewiswyd yn ofalus yn cynnig cymorth cydlynol gwerthfawr ar gyfer disgyblion a theuluoedd y mae perygl y camfanteisir arnynt neu sydd wedi'u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant ar hyn o bryd. Mae'r 'Tîm o Amgylch y Bont' yn rhoi ffocws priodol ar ddatblygu llais y disgybl drwy'r cynllun 'Dysgu'n Dda'. Mae hyn yn cynyddu cyfranogiad disgyblion drwy gynyddu'r amserlen yn raddol i gynnwys gweithgareddau hamdden. Mae'r staff hefyd yn cael budd o 'glinigau' bob hanner tymor a gynhelir gan swyddogion ymddygiad a seicolegwyr addysgol yr awdurdod. Mae'r digwyddiadau anffurfiol hyn yn galluogi'r staff i godi pryderon sy'n arwain at hyfforddiant pellach a hyfforddiant proffesiynol ar gyfer yr holl staff.

Mae staff llys prawf yn cynnal gwiriadau diogelu amserol ar bob achos lle mae'n hysbys bod plentyn yn bresennol yn y cyfeiriad lle y gofynnir am adroddiad cyn dedfrydu (PSR). Ymatebir i'r rhain yn brydlon gan yr hwb diogelu a darperir y wybodaeth hon mewn da bryd er mwyn galluogi dedfrydu. Ar gyfer achosion nad oes ganddynt PSR, cwblheir gwiriadau diogelu ar ddechrau'r asesiad fel rhan o'r broses sefydlu gan y gwasanaeth prawf. Gwelwyd hyn yn yr achosion a samplwyd gan arolygwyr.

Mae proses glir ar waith er mwyn i'r hwb diogelu wneud gwiriadau i'r gwasanaeth prawf, gyda blwch e-bost cyffredinol yn cael ei ddefnyddio sy'n rhoi gwydnwch os bydd gweithwyr penodol i ffwrdd. Mae swyddogion prawf ar rota er mwyn ymateb i'r ceisiadau hyn.

Mae staff YJS bellach yn mynychu cyfarfodydd yr hwb ddwywaith yr wythnos ac yn darparu gwybodaeth am achosion YJS, sy'n gwella cyfathrebu ac yn galluogi dull cyfannol o wneud penderfyniadau. Gall staff YJS hefyd gael hawliau 'darllen yn unig' i system WCCIS sydd hefyd yn hwyluso rhannu gwybodaeth yn brydlon, er nad oedd mynediad gan yr holl staff. Cynhelir gwiriadau ochrol (cysylltiad ag asiantaethau) gyda'r holl asiantaethau perthnasol ar ddechrau ymyrraeth at ddibenion asesiad YJS. Mae cynnig o ymyrraeth ar gyfer achosion datrysiaid cymunedol sy'n cael eu hatgyfeirio at YJS. Bu digwyddiad briffio staff YJS yn ddiweddar ar rôl a chwmpas gwasanaethau plant a chafodd hyn ymateb da gan y staff; dangosodd eu hadborth fod hyn wedi gwella eu dealltwriaeth o'r broses ar gyfer gwella canlyniadau i blant.

Lle y nodir pryderon diogelu/camfanteisio, gwnaethom nodi bod trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth camfanteisio yn cael eu cynnal. Gwelsom wahaniaeth clir rhwng trafodaethau strategaeth a chyfarfodydd strategaeth ffurfiol. Gwelsom enghreifftiau da o gyfathrebu amlasiantaeth ac ymyrraethau yn arwain at roi mesurau ataliol ar waith, megis cyflwyno hysbysiadau rhybudd am herwyddio plentyn i bobl sy'n peri risg i blant.

Gwnaethom nodi amrywiaeth eang o wasanaethau i gefnogi plant a diwallu anghenion unigol. Mae buddsoddiad proffesiynol amlasiantaeth sylweddol o ran plant a'u teuluoedd, yn seiliedig ar rannu gwybodaeth a her. Er gwaethaf heriau gweithio gydag amgylchiadau cymhleth, nid oedd asiantaethau yn cael eu hatal rhag nodi ymyrraethau, cynnig gwasanaethau a gweithio i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Gwelsom dystiolaeth o waith amlasiantaeth effeithiol, roedd gweithwyr proffesiynol yn gadarnhaol am asiantaethau partner a chydberthnasau gwaith ac yn dangos ymrwymiad ac ysgogiad i wella canlyniadau i blant.

Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod camfanteisio amlasiantaeth lle roedd cynrychiolaeth dda o weithwyr proffesiynol a thystiolaeth o gydweithredu amlasiantaeth o ran yr adnodd mesur camfanteisio newydd. Er bod hyn yn cael ei brofi drwy gynllun peilot ar hyn o bryd, mae arwyddion cynnar yn dangos bod hyn yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth a chytuno ar lefel y risg gyda'i gilydd.

Dyweddodd y plant wrthym eu bod wedi gallu ffurfio cydberthnasau da â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw o amrywiaeth o asiantaethau. Dywedwyd wrthym fod gan rai gweithwyr cymdeithasol gydberthnasau hirdymor â'r bobl ifanc. Mae gwaith ymchwil yn dangos ei bod yn bwysig bod gan bobl ifanc gydberthnasau cryf ag unigolyn allweddol¹, felly mae hyn yn ganfyddiad sylweddol.

Gwelsom fod defnydd cyson o'r acronym CWILTED i'w weld ym mhob un ond un o'r achosion o fynd i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys ymhlith y saith plentyn y gwnaethom eu hadolygu. Cofnodwyd y wybodaeth hon wrth frysbenno, fel bod yr holl ymarferwyr iechyd a oedd wedyn yn rhan o ofal y plentyn yn ymwybodol o'r Gŵyn, Gyda phwy oedd y plentyn, y Digwyddiad, Lleoliad y digwyddiad, Amser y digwyddiad, Hebryngwr yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys a Diagnosis. Cafwyd y wybodaeth hon yn brydlon, am fod brysbenno'r saith plentyn a adolygwyd wedi digwydd o fewn 26 munud i gyrraedd yr adran. Roedd gwybodaeth am risgiau yn cael ei rhannu yn brydlon ac yn briodol rhwng disgyblaethau iechyd, gan alluogi ymyrraethau amserol i gael eu cynnal ac i lefel y risg gael ei hailasesu.

Nodwyd bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn mabwysiadu her broffesiynol briodol. Roedd hyn yn dangos bod y grŵp hwn o staff yn hyderus ac yn gymwys o ran ymarfer diogelu. Roedd y staff iechyd yn annog y teuluoedd i ymgysylltu â'r gwasanaethau. Rydym wedi nodi argaeledd gweithwyr allgymorth iechyd rhywiol i gynnal gwaith un i un a gwaith grŵp wedi'i deilwra mewn ysgolion.

¹ <https://www.cardiff.ac.uk/cy/news/view/children-at-risk-of-sexual-exploitation-need-better-support,-report-concludes>

Gwelsom fod y system cofnodi meddygon teulu yn rhoi hysbysiadau o ran cynnwys gwaith diogelu ar unwaith wrth agor cofnod. Mae hyn yn annog meddygon teulu i ystyried a gwirio gwybodaeth gefndir diogelu.

Wrth archwilio gwybodaeth yr heddlu yn yr achosion at wraidd y mater, gwelsom fod dealltwriaeth gyson o risg a blaenoriaethu ymateb yn ystafell reoli'r heddlu. Roedd yr holl blant wedi'u nodi ar systemau'r heddlu yn briodol, a thynnwyd sylw at risgiau a nodweddion bregus. Mae staff yr ystafell reoli yn ymchwilio i wybodaeth a ddelir ar gronfeydd data er mwyn asesu risg, gan gynnwys MIRAF. Mae'r plant yn y garfan at wraidd y mater y nodir eu bod ar goll bob amser yn cael eu hasesu fel canolig neu uchel. Mewn un achos roedd y Tîm Quartz yn cadw prif gofnod o ddigwyddiadau a gweithgarwch sydd, yn wahanol i'r MIRAF, ar gael i bob aelod o staff yr heddlu ac mae'n cynnwys statws Quartz a gofal cymdeithasol presennol, diweddariadau am ymchwiliadau, gwybodaeth am atgyfeiriadau amlasiantaeth a chofnodion MACE.

Mae'r Heddlu yn defnyddio hysbysiadau rhybudd o herwydio plentyn (CAWN) er mwyn cyfyngu ar fynediad troseddwr i blant a darparu trefniadau diogelu pellach. Mae hyn yn arfer da pan nad yw ymyraethau eraill yn bosibl. Mae systemau'r heddlu yn nodi manylion CAWNau ac mae hyn yn darparu llinell ymholi uniongyrchol pan nodir bod y plentyn ar goll. Yn yr achosion lle mae CAWNau ar waith, gwelsom y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo o'r ystafell reoli i'r swyddogion sy'n bresennol. Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn arwain at bresenoldeb yng nghyfeiriad y troseddwr. Gwelodd yr arolygwyr enghraifft o CAWN yn cael ei ddefnyddio a wnaeth arwain at arestio'r troseddwr a'i euogfarnu am herwydio plentyn. Yna cafodd Orchymyn Risg o Niwed Rhywiol ac mae bellach yn cael ei reoli fel troseddwr lefel 2 o fewn MAPPA.

Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb i ddarparu llety priodol i blant er mwyn atal achosion o gadw plant yn ddiangen yn nalfa'r heddlu dros nos. Lle y gofynnir am lety ac na all yr awdurdod lleol fodloni'r rhwymedigaethau hyn, mae'r heddlu yn atgyfeirio'r unigolion at Banel Monitro ac Adolygu Gwent ar gyfer trafodaeth gyda'r bwriad o wella canlyniadau i blant a gedwir yn y ddalfa.

Gwelsom frwdfrydedd ac ymrwymiad ymhlith staff y gwasanaethau plant rydym wedi siarad â nhw a dyfalbarhad proffesiynol mewn ymdrechion i feithrin cydberthnasau ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Gwelsom fod cymorth eiriolaeth arbenigol yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion plant unigol.

Mae rheolwyr gwasanaethau plant wedi arwain y gwaith o gydlynu ac arwain yr adnodd a'r model camfanteisio. Mae hyn yn ddull newydd sy'n denu diddordeb ehangach. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y system newydd o ran hybu dealltwriaeth a rennir am risg a chynllunio diogelwch.

Mae gan YJS gynrychiolydd sefydlog yng nghyfarfodydd MACE sy'n gwella'r gwaith o rannu gwybodaeth ac yn cryfhau prosesau casglu cudd-wybodaeth er mwyn rheoli'r risgiau yn well. Mae ymarferwyr YJS yn gweithio'n galed i sefydlu a chynnal cydberthnasau gwaith effeithiol â'r plant sydd mewn perygl o droseddu neu aildroseddu. Mae ganddynt ymrwymiad i fynychu cyfarfodydd gweithwyr proffesiynol amrywiol er mwyn deall a rheoli'r risgiau hyn yn well. Mae llais y plentyn yn amlwg drwy'r rhan fwyaf o'r ffeiliau a chaiff eu safbwyntiau eu hystyried yn briodol. Gwelsom fod cydberthnasau da yn y Llys Ieuencid a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi arwain at ohiriadau priodol er mwyn ceisio gwyrriad o'r llys, a cheisiadau llwyddiannus ar gyfer dirymu gorchmynion statudol yn gynnar lle roedd hyn er budd pennaf y plentyn.

Ar y cyfan, mae cydweithio da â phartneriaid ac mae rhannu gwybodaeth yn amlwg o'r gwasanaeth prawf. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelu plant ond mae hefyd yn rhoi trosolwg o gyddestun ehangach eu defnyddwyr gwasanaethau i'r Rheolwr Troseddwr. Mae gwiriadau diogelu yn

cael eu cynnal gan yr NPS ar ddechrau'r ymyrraeth gyda gwaith dilynol prydlon a chysylltiad â gwasanaethau plant. Gwelwyd ymatebion prydlon gan asiantaethau i'r ceisiadau hyn gan yr NPS hefyd.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu trefniadau rhannu gwybodaeth rhagorol rhwng ysgolion uwchradd prif ffrwd cyfrwng Saesneg a'r PRU pan fydd disgyblion yn trosglwyddo o un lleoliad i un arall.

Caiff y gwaith o drosglwyddo a phontio disgyblion ei gydlynu yn llwyddiannus drwy'r panel 'Symudiadau wedi'u Rheoli' sefydledig. Mae'r grŵp yn ymgysylltu'n agored mewn diwylliant sefydledig o ddeialog onest, ymddiriedaeth a thryloywder. Mae uwch-reolwyr o'r wyth ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg a'r PRU yn mynychu cyfarfodydd wythnosol. Mae swyddogion yr awdurdod lleol, y swyddog diogelu Addysg, y cydlynnydd LACE a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuencid yn ymuno â nhw. Mae'r panel hwn, sy'n gweithio i leihau achosion o wahardd drwy gydweithio, yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i gael trafodaeth fanwl a chadarn am ddisgyblion sy'n cael ymyrraeth ar hyn o bryd naill ai mewn ysgol brif ffrwd neu yn y PRU. Mae hyn yn cynnwys her gadarn i werthuso posibilrwydd ailintegreiddio'r disgyblion mewn addysg brif ffrwd, yn ogystal â deialog agored a chefnogol am symud disgyblion o un ysgol uwchradd brif ffrwd i un arall.

Yn ystod y gwerthusiadau hyn, mae'r holl uwch-aelodau yn ystyried materion diogelu cyd-destunol ehangach, megis effaith niweidiol bosibl integreiddio disgyblion penodol â disgyblion eraill yn yr ysgol sy'n agored i niwed. Pan fydd hyn yn codi, mae rheolwyr yn agored i sefydlu amserlen hyblyg, wedi ei chwtoegi er mwyn lleihau'r risgiau hyn. Mae'r panel hefyd yn rhannu cudd-wybodaeth a gwybodaeth werthfawr am ddisgyblion wrth ystyried gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol, yn ogystal ag atgyfeiriadau derbyn ysgolion. Mae'r panel hwn yn sicrhau mai anghenion y disgybl yw ffocws unrhyw ymyrraeth a bod hynny'n cael effaith sylweddol ar leihau'r risg o gamfanteisio.

Yn ddiweddar, mae'r grŵp wedi sefydlu protocol Symudiadau wedi'u Rheoli ar gyfer ysgolion cynradd sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion cyfnod allweddol 2 uwch. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith hyn ar rôl yr ysgolion o ran lleihau'r risg o gamfanteisio. Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod arweinwyr ysgolion cynradd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymwybyddiaeth o gamfanteisio ar blant gwerthfawr drwy systemau nodi'n gynnar, a'r fenter ysgolion iach sy'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar lesiant emosiynol a rhywiol yn ogystal â chydbertnasau cymdeithasol ac effeithiau negyddol cyffuriau ac alcohol.

Mae gan yr awdurdod waith partneriaeth hirsefydledig sy'n cynnwys Coleg Gwent ac amrywiaeth o ddarpariaethau ategol sy'n cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed sy'n dilyn llwybrau dysgu ôl-16. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio tuag at gymwysterau yn y diwydiant Hamdden a Thwristiaeth, yn ogystal â chysiau galwedigaethol ym maes mecaneg ceir a thrin gwallt. Caiff y bartneriaeth gref hon ei chefnogi ymhellach gan Ymddiriedolaeth St Giles, Barnardo's, Casnewydd Fyw a'r tîm cyfiawnder ieuencid. Mae pob partner wedi datblygu ymyrraethau cynnar eithriadol ac unigol a chynlluniau cymorth ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed y mae gangiau a thrais difrifol wedi effeithio arnynt. Mae'r rhaglen yn ymgysylltu'n llwyddiannus â disgyblion a'u teuluoedd er mwyn cynnig gweithgareddau cadarnhaol megis bocsio, pysgota, garddio a phêl-droed. Mae'r gweithgareddau hyn sydd wedi'u hamserlenni yn helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau cymdeithasol pwysig sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau a phenderfyniadau bywyd ar sail gwybodaeth.

Drwy'r sampl o ffeiliau a welsom, nodwn fod yr awdurdod lleol wedi datblygu trefniadau effeithiol gyda gweithwyr cyfiawnder ieuencid a gweithwyr cymdeithasol i ddarparu cymorth ac arweiniad i deulu sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Darperir gwaith cyfieithu rheolaidd o Amhareg i Saesneg ar gyfer cyfarfodydd allweddol er mwyn sicrhau bod y rhieni a'r disgybl yn deall ac yn ymgysylltu'n briodol â'r cynlluniau addysgu unigol a grëwyd. Mae'r lefel uchel hon o ymgysylltu â'r

teulu yn arwain at gymeradwyaeth ar sail gwybodaeth gan yr ysgol a'r teulu, sy'n arwain at waith amlasiantaeth ystyrlon sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddiwallu anghenion addysgol y disgybl.

Gwnaethom nodi defnydd effeithiol o 'Siartiau Dosbarth' mewn un ysgol uwchradd. Mae hon yn system electronig fewnol a gafodd ei chyflwyno yn wreiddiol er mwyn galluogi staff i gofnodi unrhyw bryderon llesiant am unigolion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau cofnodi arsylwadau cadarnhaol ar ddisgybl sy'n agored i niwed. O ganlyniad, mae'r staff yn ymwybodol o'r pethau cadarnhaol ac yn dathlu llwyddiannau'r disgybl yn rheolaidd. Mae defnydd arloesol yr ysgol o'r system casglu cofnodion hon yn cyfrannu'n sylweddol at hunan-barch y disgybl a pharodrwydd y ferch honno i gydymffurfio ag ymddygiad derbynol. O ganlyniad, mae'r ferch wedi aros yn yr ysgol brif ffrwd ac mae ei phresenoldeb wedi gwella o 43% yn 2018-19 i 86.7% y flwyddyn academaidd hon. Mae hefyd wedi cael 69 o fflagiau cadarnhaol gan staff o bob rhan o'r ysgol a dim ond 29 o fflagiau negyddol ers mis Medi.

Meysydd i'w Gwella

Er bod gwaith samplu ar hap yn cael ei gynnal ar achosion yr heddlu, mae hyn yn canolbwyntio o hyd ar gydymffurfio â phrosesau a chanlyniadau ymchwiliol yn hytrach nag ansawdd yr ymarfer a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau i blant. Nid yw'r heddlu yn ymgymryd ag archwiliadau diogelu mewnol rheolaidd i asesu natur ac ansawdd ymarfer gweithredol pan fydd yn dod ar draws plant sy'n agored i niwed. Felly, ni all arweinwyr fod yn sicr bod swyddogion a staff yn gwneud y penderfyniadau gorau i blant sy'n agored i niwed yn gyson. Mae angen i'r heddlu wneud mwy i gadarnhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am blant yn unol â'u disgwyliadau. Mae cofnodi canlyniadau gwaith amlasiantaeth neu gynllunio amddiffynnol yn anghyson ar systemau'r heddlu. Mae hyn yn golygu bod swyddogion yn delio â digwyddiadau pan nad ydynt yn cael yr holl wybodaeth sydd gan yr heddlu am blentyn. Canlyniad hyn yw y gall penderfyniadau fod yn wallus ac arwain at ddatblygu cynlluniau diogelu llai effeithiol.

Dywedwyd wrthym fod pobl ifanc wedi cael eu rhoi mewn llety gwely a brechwast dros dro heb i swyddogion tai gynnal gwiriadau digonol ynghylch diogelwch y llety. Gallai hyn olygu bod pobl ifanc sydd eisoes yn agored i niwed yn wynebu mwy o risg.

Gwelsom gydberthynas gadarnhaol rhwng Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) a thimau gwaith cymdeithasol, a nodwyd cydbwysedd o heriau iach. Fodd bynnag, mae llwyth gwaith IRO yn uchel iawn; nodir bod hyn yn effeithio ar ansawdd eu gwaith. Nid yw hyn yn rhywbeth rydym wedi ymdrin ag ef yn fanwl yn yr arolygiad hwn o ran effaith ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc, ond dywedwyd wrthym ei fod yn effeithio ar allu IRO i gynrychioli safbwynt y plentyn yn llawn drwy'r broses o adolygu plant sy'n derbyn gofal.

Mae dull gweithredu amlasiantaeth Casnewydd o gefnogi a diogelu disgyblion sy'n agored i niwed sy'n cael eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhy adweithiol ac nid yw wedi'i seilio yn ddigon da ar ystyriaethau strategol wedi'u cynllunio. I roi enghraifft o hyn, yn ddiweddar cafodd disgybl lle roedd perygl y byddai rhywun yn camfanteisio arno a gafodd ei addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg, ei drosglwyddo o ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i ysgol cyfrwng Saesneg. Roedd hyn yn rhannol oherwydd nad oedd darpariaeth arbenigol amgen ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016 wedi nodi'r angen i wella darpariaeth anghenion addysgol arbennig cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, er bod cynlluniau diweddar yn mynd i'r afael â'r anghenion i ddarparu cymorth arbenigol mewn darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg, mae hyn yn parhau i fod yn ddiffyg sylweddol ac mae diffyg cydraddoldeb o hyd rhwng y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion mewn darpariaethau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

Mae gan YJS rôl benodol ar gyfer gweithio gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal ac mae'r rôl hon yn gweithio yn unol â'r Protocol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Nid yw'r rôl na'r protocol hwn wedi

cael eu hadolygu ers nifer o flynyddoedd ac mae'r rôl wedi newid o'r weledigaeth wreiddiol. Mae angen adolygu'r protocol a'r rôl hon. Nid oes dull cyson ar gyfer cofnodi achosion ar gyfer y rôl hon; nid yw rhai cofnodion ar gael ar gronfa ddata a rennir. Caiff peth data am blant nad ydynt yn droseddwy eu storio ar y gronfa ddata troseddwy ifanc. Mae'r rôl wedi cael ei datblygu i gefnogi dulliau adferol yn y cartrefi plant, ond nid oes unrhyw hyfforddiant o ran hwyluswyr adferol wedi cael ei ddarparu i staff mewn cartrefi gofal ers 18 mis. Mae'r protocol yn destun adolygiad ar hyn o bryd.

Mae angen adolygu'r broses bontio ar gyfer pobl ifanc sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth troseddwy ifanc sy'n cyrraedd 18 oed. Mae potensial i wneud defnydd gwell o'r swyddog prawf ar secondiad i ddal yr achosion hyn, neu gydweithio arnynt nes eu bod yn barod i'w trosglwyddo, ac yna gall y swyddog prawf ar secondiad gadw'r achosion. Byddai hyn yn lleihau newidiadau mewn personél ac yn hybu cysondeb ar gyfer y person ifanc. Mae hyn yn heriol am fod y swyddog prawf yn gweithio rhan amser yn YJS Casnewydd ac wedi'i leoli mewn swyddfa brawf wahanol. Ni all y swyddog prawf ar secondiad YJS gael gafael ar wybodaeth brawf tra ei fod yn y swyddfa YOT; gall hyn arwain at oedi wrth gael gafael ar wybodaeth risg a allai gael effaith ar ddiogelu plant.

Mae dryswch yn y llwybrau a'r dull o gofnodi achosion a nodwyd fel achosion atal yn yr YJS, heb unrhyw amseroedd dechrau na gorffen clir ar gyfer yr ymyrraeth hon ac achosion yn aros ar agor am gyfnodau hir o amser o bosibl. Yn aml, bydd plant yn parhau i fod mewn rhyw berygl o aildroseddu am nad oes unrhyw waith cynllunio gadael brys ar gyfer yr achosion hyn. Nid yw staff prawf yn siŵr o ran pryd i ddefnyddio'r asesiad aeddfedwydd ar y bobl ifanc yn eu llwyth achosion. O ran y gwasanaeth prawf, mae disgwyl y bydd ymweliadau â'r cartref yn cael eu cynnal mewn modd amserol ar gyfer pob achos lle mae plant yn bresennol. Nid yw hyn wedi digwydd bob amser yn yr achosion a samplwyd.

Mae staff yr heddlu a staff gwasanaethau plant yn ymrwymedig i ddarparu dull ar y cyd er mwyn ymateb i atgyfeiriadau diogelu ac maent wedi dyrannu adnoddau er mwyn delio â nifer yr atgyfeiriadau a geir. Fodd bynnag, am nad yw pob asiantaeth wedi'i chynrychioli yn yr hwb, gall hyn atal cyflymder ac ansawdd gwneud penderfyniadau. Weithiau anfonir ceisiadau am wybodaeth gan bartneriaid mewn perthynas â'r cyfarfodydd hwb yn hwyr, sy'n gallu gwneud y broblem hon yn waeth. Gwnaethom nodi bod ychydig o oedi wrth brosesu hysbysiadau PPN lle mae gwybodaeth ar goll neu nad yw'r ffurflen wedi'i derbyn oherwydd problemau TG. Gall gwydnwch staff yr heddlu weithiau achosi oedi wrth unioni hyn ac ôl-groniad wrth brosesu atgyfeiriadau. Gall hyn achosi oedi cyn rhoi help i blant a'u teuluoedd.

Mae diffyg adborth i bartneriaid am ganlyniadau o atgyfeiriadau ac eithrio mewn perthynas â'r PPNau a reolir gan y Tîm Ymyrryd yn Gynnar. Mae hyn yn golygu nad yw gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi digwydd mewn ymateb i'w pryderon a gall hyn o bosibl eu cymell i beidio â chyflwyno atgyfeiriadau pan fydd eu hangen yn y dyfodol.

Pan geir atgyfeiriadau diogelu mewn perthynas â ffeiliau sy'n agored i dimau gwaith cymdeithasol, gwelsom y gall fod oedi cyn cael ymateb prydlon gan bartneriaid i sicrhau trafodaeth amserol am strategaeth. Mae uned atgyfeirio ganolog (CRU) Heddlu Gwent yn dîm rhanbarthol a gall pwysau gwaith arwain at oedi cyn ymateb.

Mae ansawdd y wybodaeth atgyfeirio a geir yn yr hwb gan bartneriaid yn amrywio. Gwelsom, er y gellir darparu manylion, nad yw ansawdd y wybodaeth am bryderon diogelu penodol bob amser yn eglur. Fodd bynnag, dylid nodi bod ffurflenni PPN a geir gan yr heddlu yn gwella o ran ansawdd, gan gynnwys gwybodaeth a gofnodir am lais y plentyn a chydabyddiaeth o ACE. Yn y lle cyntaf, mae'r awdurdod lleol yn ymateb i bob atgyfeiriad o fewn 24 awr. Mae gwiriadau ochrol yn cael eu cynnal yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, yn aml nid oes digon o fanylder yn y gwiriadau hyn i gyfrannu'n ystyrlon at asesiadau. Er enghraifft, gwelsom y gallai gwiriadau a gynhaliwyd gydag asiantaethau ymholi am eu gwaith presennol, ond yn aml dim ond gwybodaeth gyfyngedig arall oedd wedi'i chofnodi.

Wrth gyfeirio uchod at ymarfer cadarnhaol mewn perthynas â chyflwyno ffurflenni PPN ar gyfer plant a gedwir yn y ddalfa, mae hyn yn achosi dyblygu am fod ffurflenni PPN hefyd yn cael eu cyflwyno gan y swyddogion sy'n delio â'r digwyddiad/yn arestio. Mae hyn yn cyfrannu at nifer atgyfeiriadau PPN yr heddlu sy'n cael eu prosesu yn yr hwb diogelu, gan achosi dryswch o bosibl ac arwain at oedi cyn rhoi help i blant. Nid yw cwblhau PPNau yn gyson yn yr achosion a adolygwyd gennym. Er bod ffurflenni yn cael eu cwblhau ar y cyfan ar gyfer plant lle mae pryderon diogelu a phan gaiff plant eu harestio; nid ydynt bob amser yn cael eu cwblhau pan roddir gwybod bod plant ar goll. Felly nid yw'n glir a yw gwybodaeth am amgylchiadau'r digwyddiad a risgiau cysylltiedig wedi cael eu rhannu â phartneriaid diogelu perthnasol nac ychwaith a yw atgyfeiriadau wedi arwain at ymyraethau partner.

Gwelsom nad oedd asesiadau bob amser yn cofnodi'r ffaith bod plant wedi cael eu gweld na bod eu barn wedi cael ei chynnwys. Er y gwnaethom nodi bod ymarfer gwaith cymdeithasol yn ymgysylltu â phlant yn gadarnhaol, ni welsom fod hyn wedi'i adlewyrchu yn ddigonol mewn dogfennaeth. Mae angen gwneud gwaith pellach i ymgorffori egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac ymarfer yn seiliedig ar gryfderau. Nid oedd asesiadau a adolygwyd mewn gwasanaethau plant yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig i blant na'r canlyniadau roedd plant a theuluoedd am eu cyflawni. Nid oedd tystiolaeth o sgysiau "Yr Hyn sy'n Bwysig" felly roedd cynrychiolaeth wael o lais plant a theuluoedd. Nid oedd asesiadau yn gryno ac roedd diffyg dadansoddi. Gwelsom nifer o achosion lle roedd awgrym clir (drwy nifer o ailatgyfeiriadau diweddar) bod angen gofal a chymorth ar blant a theuluoedd ond nid oedd eu sefyllfa yn datblygu yn briodol.

Roedd rhai cynlluniau gofal a chymorth a adolygwyd gan arolygwyr yn cynnwys amcanion a nodau clir mewn perthynas â chanlyniadau i blant, gyda sgoriau yn cael eu pennu fel y gellir olrhain cynnydd a datblygiad plant. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion WCCIS bob amser yn unigol nac yn berthnasol i blentyn neu frawd neu chwaer; roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd cadarnhau a oedd ffocws clir ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth unigol lle roedd ymyraethau penodol yn cael eu cynnal gyda phlant a theulu. Nid oedd cynlluniau gofal a chymorth bob amser yn cael eu cwblhau yn gynhwysfawr. Nid oeddent yn dangos bod gwaith a wneir gan weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r achosion wedi'i gydlynu yn effeithiol. Nid oedd cynlluniau yn cael eu diweddarau yn gyson mewn modd amserol yn dilyn newidiadau sylweddol, er enghraifft, pan oedd plant yn dechrau derbyn gofal neu'n dychwelyd adref.

Nid yw'n glir a yw plant wedi cyfrannu at eu cynlluniau gofal a chymorth neu a ydynt wedi cael eu gwahodd i gyfarfodydd. Roedd yr adolygiad o ffeiliau yn dangos nad yw plant bob amser yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau eirioli. Byddai staff yn cael budd o hyfforddiant pellach ar CSE a CCE i ddatblygu hyder a sgiliau o ran y maes gwaith hwn er mwyn diwallu anghenion plant yn y ffordd orau.

Gwelsom fod cytundebau ysgrifenedig yn cael eu defnyddio gyda theuluoedd fel dewis amgen yn lle defnyddio prosesau amddiffyn plant. Mae'n bosibl i'r dull hwn danseilio gwaith amlasiantaeth, lleihau risg ac nid yw'n rhoi eglurder i blant a theuluoedd am yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt na pham.

Yn y ffeiliau a samplwyd gennym gwelsom oedi sylweddol o ran cynnal cyfarfodydd strategaeth CCE. Mae hyn yn golygu bod oedi o ran cynnal asesiad risg amlasiantaeth. Er bod trafodaeth strategaeth gychwynnol wedi ei chynnal i drafod ystyriaethau diogelu brys a bod nodiadau wedi cael eu rhoi ar systemau'r heddlu, roedd yr oedi cyn cynnal cyfarfod strategaeth i rannu gwybodaeth, asesu'r risg barhaus a chreu cynllun yn gadael y plant hyn wedi'u hamlygu i risg barhaus o bosibl. Gwelsom nad oedd cyfarfodydd strategaeth plant coll yn cael eu cynnal yn unol â Chanllawiau Cymru Gyfan. Felly, ni all y bartneriaeth leol fod yn sicr bod asesiad o waith cynllunio risg a diogelwch yn gadarn ar gyfer plant coll.

Dywedwyd wrthym gan weithwyr proffesiynol gwahanol nad oedd cofnodion o gyfarfodydd strategaeth fel arfer yn cael eu dosbarthu neu fod oedi cyn eu hanfon. Heb ddosbarthu cofnod o gyfarfod, mae pryder y caiff dealltwriaeth gyffredin o'r risgiau a nodwyd a'r camau a gymerir eu camgyfleu. Nid oedd gweithwyr proffesiynol bob amser yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd

strategaeth na grwpiau craidd pan fyddai ganddynt wybodaeth a chudd-wybodaeth werthfawr i'w rhannu. Gallai hyn olygu nad yw plant bob amser yn cael eu diogelu yn ddigonol. I'r gwrthwyneb, roedd staff yr awdurdod lleol yn poeni bod rhai asiantaethau yn anghyson o ran eu presenoldeb mewn grwpiau craidd. Mae cynrychiolaeth gan weithwyr proffesiynol allweddol mewn grwpiau craidd yn hanfodol oherwydd dyma ble y caiff y cynllun amddiffyn plant manwl ei greu a'i adolygu.

Daeth arolygwyr i'r casgliad bod yr ymateb i ymholiadau o dan adran 47 yn amrywiol; roedd rhai ymchwiliadau yn cael eu rheoli'n dda ac yn cael eu goruchwyllo'n briodol. Gwelwyd enghreifftiau da o gydweithio a gwelwyd bod ystyriaethau ymchwiliol a diogelu yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw.

Lle y rhoddwyd gwybod bod plant ar goll; nid oedd gweithgarwch i'w lleoli a'u diogelu bob amser yn rhagweithiol nac yn amserol. Mae blaenoriaethau plismona croes eraill yn arwain at broblemau adnoddau ac yn aml galwadau ffôn a gwiriadau cronfa ddata yw ymholiadau cychwynnol. Roedd cyfleoedd i nodi llais y plentyn mewn rhyngweithiadau â'r heddlu yn amrywio. Mewn rhai ymchwiliadau roedd yn hynod o dda gyda defnydd o gamerâu a wisgir ar y corff, swyddogion wedi'u hyfforddi yn arbennig, ymweliadau ar y cyd â gweithwyr cymdeithasol a chyfryngwyr. Yn aml caiff agwedd ac ymddangosiad y plentyn eu cofnodi hefyd, yn ogystal â disgrifiad o'r amgylchedd byw. Fodd bynnag, datgelodd adolygiad o'r cofnodion o gyfweiliadau a gynhelir pan ddeuir o hyd i blentyn neu pan fydd plentyn yn dychwelyd adref ar ôl bod ar goll, fod manylion o'r cyfweiliad naill ai yn fyr neu nad ydynt ar gael o gwbl. Mewn rhai achosion, nid oedd llawer o chwilfrydedd, ystyriaeth na gwaith ymchwilio i ystyriaethau diogelu ehangach, yn enwedig mewn achos lle nad oedd troseddwr yn byw yn Ardal Heddlu Gwent.

Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn y ffeiliau a adolygwyd gennym yn gyson, ond nid oedd bob amser yn ddigon effeithiol o ran cofnodi her a rheoli ansawdd gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn arwain at ddiffyg manylion a chyfle coll i wella ansawdd amrywiol atgyfeiriadau ac asesiadau.

Nid yw achosion YJS agored yn cael eu nodi yn achosion agored ar system rheoli achosion gwasanaethau plant, ac nid oes gan yr hwb diogelu fynediad at gofnodion rheoli achosion YJS. Mae hyn yn atal prosesau effeithiol o rannu gwybodaeth ac yn achosi oedi o ran gwaith cyfathrebu. Gall achosion YJS aros ar agor am gyfnodau amhenodol o amser, yn amodol ar gytundeb gan reolwr, ar sail wirfoddol. Gallai hyn gael yr effaith o greu sicrwydd ffug o ddiogelu gan wasanaethau plant lle mae'r ymyrraeth yn fach neu'n ymbellhau. Roedd rhai o aelodau staff YJS wedi drysu o ran pa adnodd asesu y dylid ei gwblhau ar achosion CR; er bod canllawiau yn cael eu darparu o ran pryd i ddefnyddio'r adnodd asesu Assetplus llawn neu asesiad byrrach mewnol Casnewydd, nid oedd staff yn glir am hyn ac mewn un achos a welwyd nid oedd unrhyw asesiad wedi'i gwblhau.

Nid yw cynlluniau YJS yn adlewyrchu gwaith asiantaethau eraill yn ddigonol i reoli diogelwch a llesiant plant. Roedd gwaith cynllunio ymadael yn amrywio. Mewn rhai achosion nid oedd unrhyw asesiad YJS ffurfiol o anghenion cyfredol i lywio cynllun ymyrryd. Roedd atgyfeiriadau yn cael eu gwneud drwy'r Protocol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PCLA) fel rhan o strategaeth ymadael yn dilyn dod â chymorth statudol YJS i ben mewn rhai achosion, sy'n rhoi ychydig o barhad cymorth i'r plant. Fodd bynnag, mae diffyg ffocws i hwn ac ni welwyd braidd dim cofnodion ffurfiol ar y cofnodion YJS o ran natur y cymorth a gynigir na'r cymorth a geir. Er bod y gwasanaeth a gynigir yn canolbwyntio ar y plentyn a chynigir cymorth o ran eu dymuniadau, nid yw wedi'i ymgorffori mewn cynlluniau eraill ar gyfer y plentyn ac mae diffyg dull gweithredu cydlynol ar gyfer y plant hynny.

Nid oedd y gwasanaeth prawf bob amser wedi rhannu'r holl achosion blaenorol perthnasol o droseddau â gweithwyr proffesiynol i ddiogelu plant yn well a sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli yn briodol. Dylid darparu gwybodaeth yn brydlon hefyd i weithiwr cymdeithasol y plentyn a YJS ynghylch canlyniadau llys er mwyn llywio unrhyw waith cynllunio wrth gefn y gallai fod ei angen. Byddai staff prawf yn gwerthfawrogi hyfforddiant pellach ar y prosesau a'r derminoleg gyfreithiol mewn perthynas â diogelu. Maent yn teimlo y byddai hyn yn ychwanegu gwerth at eu gallu i gwblhau ffurflenni MARF a chynrychioli amgylchiadau pobl ifanc yn well.

Nododd arolygwyr nad oedd dogfennaeth iechyd yn ysgogi staff i wneud ymholiadau am wybodaeth hanfodol; a yw gwasanaethau plant yn gweithio gyda theulu a phwy sydd â chyfrifoldeb rhieni dros y plentyn. Nid oedd mapiau o'r corff er mwyn galluogi ymarferwyr i ddogfennu anafiadau yn cael eu defnyddio yn rheolaidd. Nid oedd MARFau a gyflwynwyd gan yr adran iechyd bob amser yn cynnwys manylion rhieni a brodyr a chwiorydd. Ar gyfer un ffeil a adolygwyd nid oedd unrhyw dystiolaeth bod atgyfeiriad wedi cael ei gyflwyno mewn perthynas â phlentyn a aeth i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys ar ôl gorddos.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod meddyg teulu yn bresennol mewn cynadleddau amddiffyn plant ar gyfer y sampl o ffeiliau a adolygwyd gan arolygwyr iechyd, er bod gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn bresennol yn ôl y cofnodion.

Un maes i'w ddatblygu ar gyfer yr adran iechyd fyddai sicrhau bod y panel symudiadau wedi'u rheoli yn cael ei ehangu i ystyried yn llawn heriau plant sy'n agored i niwed sy'n mynychu'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gyfun Gwent Iscoed.

Y camau nesaf

Dylai'r awdurdod lleol baratoi datganiad ysgrifenedig o gamau gweithredu arfaethedig yn ymateb i'r canfyddiadau a amlinellir yn y llythyr hwn. Dylai hyn fod yn ymateb amlasiantaeth yn cynnwys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid, Ymddiriedolaeth Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Heddlu Gwent. Dylai'r ymateb nodi'r camau gweithredu ar gyfer y bartneriaeth a, lle y bo'n briodol, asiantaethau unigol. Dylai pennaeth y gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau plant anfon y datganiad gweithredu ysgrifenedig i AGC.AwdurdodLleol@llyw.cymru erbyn *Dyddiad i'w gytuno*. Bydd y datganiad hwn yn llywio'r llinellau ymholi mewn unrhyw weithgarwch ar y cyd neu weithgarwch asiantaeth unigol yn y dyfodol gan yr arolygiaethau.

Yn gywir




Gillian Baranski
Prif Arolygydd
Arolygiaeth Gofal Cymru



Alun Jones
Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru



Helen Davies
**Pennaeth Arolygiadau Thematig ac
Arolygiadau ar y Cyd**
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi



Meilyr Rowlands
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi
Estyn



Wendy Williams,
Arolygydd Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi